



CYDWEITHREDFA GWELLA GWASANAETHAU
GOFAL A LLESIANT **GOGLEDD CYMRU**

NORTH WALES SOCIAL CARE AND WELL-BEING
SERVICES IMPROVEMENT COLLABORATIVE

Munudau Cyfarfod Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru

9 Hydref 2020

9:00 yb to 11:30 yb

Trwy gyfrwng MS Teams

Yn bresennol:	Teresa Owen, Bethan Jones Edwards, Alwyn Jones, Morwena Edwards, Bethan E Jones, Cyng. Bobby Feeley, Cyng. Christine Jones, Cyng. Joan Lowe, Cyng. Louise Emery, Fon Roberts, Jenny Williams, John Gladston, Judith Greenhalgh, Paul Scott yn bresennol ar ran Kevin Roberts, Cyng. Llinos Medi Huws, Lynda Colwell, Mary Wimbury (MWim), Neil Ayling, Nicola Stubbins, Peter Williams, Rob Smith, Shan Lloyd Williams, John Gallanders, Dr Lowri Brown
Ymddiheuriadau:	Chris Stockport, Clare Budden, Cyng. Dafydd Meurig, Estelle Hitchon, Ffion Johnstone, Helen Corcoran, Mark Wilkinson (MWil), Kevin Roberts, Lucy Reid, Catherine Elaine Jones, Roma Hooper
Hefyd yn bresennol:	Llinos Edwards, Rheolwr Rhaglen Gwella Gwasanaeth, Is-Adran Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu Alan Hughes, Rheolwr Rhaglen WCCIS Gogledd Cymru

1 Croeso, cyflwyniadau ac ymddiheuriadau

Croesawodd y cadeirydd bawb i'r cyfarfod a nodwyd yr ymddiheuriadau uchod.

Estynnwyd croeso cynnes i Dr Lowri Brown, a enwebwyd yn ddiweddar gan Brif Swyddogion Gweithredol Awdurdodau Lleol Gogledd Cymru i fod yn gynrychiolydd Addysg Ranbarthol Gogledd Cymru.

2 Munudau a champau gweithredu'r cyfarfod diwethaf – mis Medi 2020

Cytunwyd bod cofnodion cyfarfod 11.9.2020 yn gofnod cywir.

Camau gweithredu sydd eto i'w cwblhau

- Profi mewn Cartrefi Gofal – TO a MWim i drefnu trafodaeth dros y ffôn yr wythnos hon

- Cynllun Gaeaf – gwaith ar y gweill i goladu adroddiadau a dderbyniwyd gan Fyrddau Gwasanaeth Integredig Ardal (AISB) i greu un adroddiad lefel uchel ar gyfer y rhanbarth i'w roi i LIC. Cyflwynir y cynllun terfynol yng nghyfarfod BPRh Gogledd Cymru ym mis Tachwedd.
- Ffocws a Blaenoriaethau – mae'r ddogfen bellach wedi'i diweddarau mewn perthynas â Covid fel y gofynnwyd mewn cyfarfod blaenorol. Arhosir am gytundeb y Cadeirydd. Caiff y ddogfen derfynol ei chyflwyno i BPRh Gogledd Cymru am gymeradwyaeth yng nghyfarfod mis Tachwedd.
- Strategaeth Dementia ac adroddiad cyflenwi – cyflwynir y strategaeth derfynol a'r dogfennau cysylltiedig yng nghyfarfod y BPRh ym mis Tachwedd

3 Cymru Iachach

Darparodd BJE gyflwyniad ar gyfer y drafodaeth am Raglenni Trawsnewid Cymru Iachach.

Yn ddiweddar cyhoeddodd LIC estyniad o 12 mis i'r Rhaglenni Trawsnewid tan fis Mawrth 2022. Mae pob Rhaglen Drawsnewid wedi cwblhau adroddiad cynnydd tan ddiwedd mis Medi 2020 ac adroddiad achos busnes i ddangos y rhaglen waith a fyddai'n cael ei chymryd ymlaen gyda'r cyllid ychwanegol ar gyfer 2021-22.

Cyflwynir yr adroddiadau hyn heddiw i'w cymeradwyo gan BPRh Gogledd Cymru a byddant yn cael eu hanfon ymlaen at LIC yn dilyn y cyfarfod heddiw. Cyfanswm y dyraniad ar gyfer y 4 rhaglen dros 19/20 a 20/21 oedd £13 miliwn, gyda phob rhaglen drawsnewid yn rhagweld y byddent yn gwario eu dyraniad i gyd.

Mae LIC wedi cyhoeddi'n ddiweddar hefyd y bydd dyraniad dangosol Gogledd Cymru ar gyfer 2021-22 yn £4.6 miliwn. Ar ôl i'r diweddariadau gael eu cyflwyno gan bob rhaglen heddiw, bydd angen i'r bwrdd ystyried yr opsiynau ar gyfer rhaglenni 21/22, os nad oes cyllid ychwanegol ar gael h.y. lleihau hyd y rhaglenni, blaenoriaethu beth a ariennir a beth na ariennir, chwilio am arian i barhau â'r rhaglenni o gyllid craidd presennol y partneriaid.

Cynigodd NA ac AJ bod y BPRh yn herio LIC ynghylch y dyraniad dangosol gan yr ymddengys nad yw'n cyd-fynd â'r ffaith mai gogledd Cymru yw'r rhanbarth fwyaf yng Nghymru, ac y rhagwelir y bydd gogledd Cymru yn gwario'r dyraniad gwreiddiol i gyd.

Cynigodd LIM bod deiliaid portffolio GC y BPRh yn cyfarfod i drafod y mater hwn ac yn anfon llythyr at LIC. Roedd yr holl ddeiliaid portffolio GC a oedd yn bresennol yn y cyfarfod yn cytuno â'r cam gweithredu hwn.

Rhaglen Trawsnewid Plant a Phobl Ifanc (PaPhl) - Nicola Stubbins

Rhoddodd NS drosolwg o'r Rhaglen Drawsnewid Plant a Phobl Ifanc, sy'n cynnwys 3 ffrwd waith:

- Gwella iechyd emosiynol, lles a gwytnwch plant a phobl ifanc drwy ymyrraeth gynnar ac atal integredig a chymorth cynnar
- Ymyrraethau Ar Ffiniau Gofal gan ymgorffori Timau Amlddisgyblaethol
- Prosiect Amddiffyn Plant yn Effeithiol

Er gwaethaf heriau Covid parhaodd ffrwd waith PaPhl i wneud cynnydd o ran datblygu fframwaith rhanbarthol gyda chyflawniadau nodedig, er, hyd yma, nid yw'r cynnydd ond wedi crafu wyneb y rhaglen a ffyrdd newydd o weithio.

Diweddariadau gan y timau ardal:

Ail-gyfeiriodd ardal y Gorllewin waith i ddatblygu rhaglen hyfforddi i uwchsgilio'r gweithlu plant a chydweithio â phartneriaid yn y gymuned a'r sector gwirfoddol i ddarparu cynllun cydnerthu cymunedol mewn ymateb i angen lleol. Ar yr un pryd, mae gwaith yn ailddechrau i fireinio'r model gofalu a sefydlu'r Tîm Amlddisgyblaethol.

Gweithiodd yr ardal Ganolog ar 4 amcan, a'r prif amcan oedd model gofalu pwrpasol sy'n seiliedig ar asesu a llunio clinigol a darparu ymyrraethau dwys gan gynnwys cyfweld ysgogiadol, sgysiau cydweithredol a Therapi Ymddygiad Dialectig.

Roedd ardal y Dwyrain wedi gwneud cynnydd ar waith Therapi Aml-Systemig. Mae partneriaid yn ardal y Dwyrain wedi croesawu cyfle i dreialu model a fyddai'n cefnogi darpariaeth gwasanaeth cwbl integredig a dysgu pethau newydd nid yn unig i'r ardal leol a'r rhanbarth ond hefyd i Gymru gyfan. Penderfynodd y tîm yn gynnar mai ymyrraeth therapiwtig a ddarperir gan dîm amlddisgyblaethol fyddai'n fwyaf addas i blant ar ffiniau gofal a'u teuluoedd yn eu hardaloedd lleol.

Mae NS yn cydnabod ymrwymiad a brwdfrydedd pob tîm, partner statudol a'r trydydd sector yn eu hymgysylltiad a'u gwaith gwerthuso. Mae pobl ifanc a theuluoedd hefyd wedi cyfrannu gyda'u profiadau i alluogi'r prosiect i ddatblygu.

Er hynny, yn debyg i'r rhan fwyaf o brosiectau, bydd mwyafrif y gwariant yn dangos tua diwedd y flwyddyn ariannol. Nid yw hyn wedi gosod y rhaglen mewn safle da o ran gwariant hyd yma a chais LIC i barhau â'r rhaglenni. Pe bai'n cael cyfle i dderbyn buddsoddiad am 12 mis arall, dywed NS bod gan y rhaglen botensial i gynyddu o ran maint a thrawsnewid y gwasanaeth trwy:

- Gyllid refeniw gan gynnwys darparu a sefydlu ymyrraeth ddwys, timau cymorth a darpariaeth a thimau cymorth cynnar. Hefyd yn cynnwys costau rhedeg a staffio'r darpariaethau preswyl.

- Cyllid cyfalaf i ddatblygu dwy ganolfan asesu i ddarparu gofal mewn argyfwng a lleoliad preswyl i asesu

Nododd BEJ ei bod o blaid y rhaglen Plant a Phobl Ifanc a bod y prosiect hwn yn arbennig yn gofyn am barhad mewn cyllid am y 12 mis nesaf er mwyn sicrhau model cynaliadwy, gan fod gan y rhaglen botensial i gyflawni newid diwylliannol ac ymarferol mawr i ddiwallu anghenion lles emosiynol a meddyliol plant a phobl ifanc a hynny am fuddsoddiad bach.

Holodd JGa a oedd cydweithwyr yn hyderus y byddai'r gwasanaethau yn cael eu darparu yn deg i'r boblogaeth gyfan.

Dyweddodd NS bod y mater hwn wedi bod yn bwnc dadl a thrafodaeth trwy gydol y rhaglen. Mae'r egwyddorion yr un fath ledled gogledd Cymru, fodd bynnag, bydd darpariaeth is-ranbarthol yn adlewyrchu gofynion y boblogaeth yn yr ardal honno a bydd Timau Amlddisgyblaethol yn cael eu sefydlu ym mhob ardal ALI, gyda phob un wedi'i strwythuro'n wahanol i ddiwallu anghenion lleol.

Nododd y Cynghorydd BF ei fod yn gwbl gefnogol o'r rhaglen ac amlygodd bwysigrwydd iechyd meddwl ymysg pobl ifanc, yn enwedig nawr wrth i gyfradd heintio'r feirws godi. Mae ymarferwyr yn gweld cynnydd pryderus mewn problemau iechyd meddwl a welir ymysg plant oedran cynradd.

Nododd NA ei fod hefyd yn cytuno â'r Rhaglen Drawsnewid Plant a Phobl Ifanc, a bod Tîm Amlddisgyblaethol y Dwyrain yn ymgymryd â gwaith trawsnewid arwyddocaol gyda phobl ifanc a theuluoedd.

Credai y Cyng. LM bod angen rhoi mwy o bwyslais ar y Gymraeg yn yr adroddiad, gan nodi y dylai plant a phobl ifanc o bob cwr o ogledd Cymru allu derbyn gwasanaethau yn eu hiaith ddewisedig.

Ymddiheurodd NS nad yw'r Gymraeg yn cael ei hamlygu'n ddigonol yn yr adroddiad a nododd bod y Gymraeg yn sylfaen i bopeth a ymgymerir gan y rhaglen; gan gydnabod anghenion plant lleol a gwasanaethau sydd ar gael, sy'n gysylltiedig â'u hardal leol. Mae'r holl adnoddau a ddatblygwyd ar gyfer y rhaglen ar gael yn Gymraeg a Saesneg.

Nododd BPRh Gogledd Cymru y cynnydd a'r gwaith sylweddol sy'n digwydd ledled y rhanbarth ac roeddent yn cytuno y dylid cymeradwyo achos busnes y Rhaglen Drawsnewid Plant a Phobl Ifanc.

Rhaglen Drawsnewid Anabledau Dysgu - Neil Ayling

Rhoddodd NS ddiweddariad am gynnydd a chyflawniadau'r Rhaglen Drawsnewid Anabledau Dysgu.

Tynnodd NA sylw at y Strategaeth AD a grëwyd 4/5 mlynedd yn ôl, a dyma'r rhanbarth gyntaf a'r unig un i gael rhaglen drawsnewid yng Nghymru sy'n cwmpasu Anableddau Dysgu.

Mae'r 5 pecyn a gyd-gynhyrchwyd wedi llifo trwodd ac wedi'u cynnwys yn yr achos busnes arfaethedig.

- Strwythurau integredig
- Datblygu'r gweithlu
- Comisiynu a chaffael
- Newid cymunedol a diwylliannol
- Technoleg gynorthwyol

Parhaodd y gwaith a'r momentwm trwy gydol y cyfnod clo gyda thîm llai mewn lle. Mae'r cynnydd a wnaethpwyd ar dechnoleg dddigidol wedi talu ar ei ganfed i gynnig cymorth yn ystod y pandemig.

Mae'r achos busnes wedi cael ei gymeradwyo gan y Bwrdd AD yn ddiweddar, a chynhaliwyd cyfarfod her 'cyfaill beirniadol' gyda phartneriaid allweddol i drafod y cynllun busnes, ac arweiniodd hynny at y fersiwn diweddaraf.

Diolchodd y Cynghorydd CJ i NA am yr adroddiad cynhwysfawr a thynnodd sylw at 'Ymchwil Prosiect', lle mae 8 o'r 9 unigolyn o gohort 2019-2020 wedi llwyddo i gael cyflogaeth am dâl ar ddiwedd y cwrs.

Nododd BPRh Gogledd Cymru y gwaith arwyddocaol sy'n cael ei wneud ac roeddent yn cytuno y dylid cymeradwyo achos busnes y Rhaglen Drawsnewid Anableddau Dysgu.

Rhaglen Drawsnewid Law yn Llaw at Iechyd Meddwl - Llinos Edwards

Cafodd y bwrdd ddiweddariad gan LIE am achos busnes Law yn Llaw at Iechyd Meddwl.

Mae egwyddorion Cymru Iachach yn sylfaen i Nodau Ymgyrch ICAN:

- Rhoi Llais i bobl sydd â phrofiad bywyd
- Symud y ffocws gofal at atal ac ymyrryd yn fuan
- Grymuso pobl i gynnal eu hiechyd meddwl a'u lles
- Annog sgysiau agored a deallus am iechyd meddwl

Cyflawni'r Nodau sydd wedi'u datblygu gan Law yn Llaw at Iechyd Meddwl:

- Llwybr cymorth iechyd meddwl newydd I CAN – anelu at ddarparu cyswllt di-dor at ddarpariaeth gymunedol.
- Profi Gofal Heb Ei Drefnu ICAN
- Datblygu a sefydlu Canolbwyntiau Cymunedol ICAN – darparu gwasanaethau holistaidd
- Rhaglen gyflogaeth I CAN Work
- Hyfforddiant Iechyd Meddwl ICAN
- Cyfleoedd gwirfoddoli I CAN

Roedd y cynnydd a wnaethpwyd yn ystod pandemig Covid-19 yn cynnwys:

- Sefydlu gwasanaeth ffôn 'Aros yn Iach' a ddarperir gan wirfoddolwyr ICAN.
- Profi Rôl Cysylltydd ICAN (Llywio Cymunedol)
- Integreiddio mwy gyda Thimau Iechyd Meddwl Cymunedol a Gofal Sylfaenol
- Sefydlu 'Canolbwyntiau Cymunedol ICAN ar y Rhyngwrwyd'
- Gwella a chyflymu'r arlwy ddigidol a thros y we
- Cryfhau a gwella gweithio mewn partneriaeth
- Parhau i recriwtio gwirfoddolwyr ICAN
- Parhau i gyflenwi hyfforddiant ICAN – er ei fod yn digwydd dros y we

Roedd gweithgareddau blwyddyn 1 yn canolbwyntio ar greu sylfaen a datblygu'r cysyniad a'r brand er mwyn gallu trawsnewid y system yn ehangach. Mae angen cyllid ar gyfer y cam nesaf sy'n cynnwys:

- Datblygu'r gweithgareddau sydd wedi digwydd hyd yma, datblygu agenda partneriaethau ehangach sy'n canolbwyntio ar bynciau ehangach, tai, cyflogaeth, sydd i gyd yn cael mwy o effaith ar les.
- Asio a phontio'r rhaglen waith yn nes at y rhaglen waith Trawsnewid Cymunedol, yn enwedig y ffrydiau gwaith Clwstwr Meddygon Teulu / ardaloedd lleol fel bod ICAN yn cael ei weld fel 'adnodd cymunedol'.
- Gwella ac ehangu cefnogaeth, cysylltiad ac asesiadau a wneir yn ddigidol.
- Parhau i ddatblygu gwaith ar y llwybr ICAN; Canolbwyntiau Cymunedol ICAN ac Academi ICAN

Nododd JW ei bod yn cytuno i gefnogi trawsnewid IM, gyda buddion enfawr eisoes i'w gweld yn CBSC.

Cefnogodd ME hefyd y rhaglen IM a nododd mai cydweithio gyda'r rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Cymunedol oedd y cam nesaf naturiol; cynorthwyo pobl i gael gwaith a chefnogi lles mewn ardaloedd lleol.

Nododd PW bod tlodi digidol yn bryder fawr gyda Gofalwyr. Yn ystod y pandemig gwelwyd arwahanrwydd cymdeithasol a rhyngweithio cymdeithasol a thynnwyd sylw at galedwedd a chysylltedd digidol.

Cytunodd BEJ gyda PW a chadarnhaodd bod cynhwysiant digidol wedi cael ei amlygu fel mater o bwys i gyfran helaeth o'r boblogaeth, ac mae'r mater yn cael ei drafod a'i archwilio gan y bwrdd trawsnewid digidol.

Nododd BPRh Gogledd Cymru y gwaith sylweddol sydd eisoes wedi ei wneud a chytunwyd cymeradwyo achos busnes Trawsnewid Law yn Llaw at Iechyd Meddwl.

Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Cymunedol

Rhoddodd AJ wybodaeth i BPRh Gogledd Cymru am gynnydd y rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Cymunedol, gan gynnwys effaith Covid.

Mae Strategaeth Gwblhau / Achos Busnes Trawsnewid Gwasanaethau Cymunedol yn rhannu'r rhaglen yn 5 ffrwd gwaith allweddol:

Ffrwd waith 1: Datblygu Ardaloedd Lleol.

Y ffrwd waith hon yw canolbwynt yr hyn y mae'r Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Cymunedol yn ceisio ei gyflawni, sef datblygu ardaloedd lleol iechyd a gofal cymdeithasol integredig, yn seiliedig yn bennaf (er nid yn gyfan gwbl) ar ddaearyddiaeth Clystyrau Meddygon Teulu. Mae'r pandemig yn dwysau'r risg allweddol a nodwyd.

Rhoddir pwyslais a blaenoriaeth ar:

- adeiladu ar yr adborth cadarnhaol ynghylch gwneud penderfyniadau daearyddol / lleol,
- Alinio datblygiad Timau Adnoddau Cymunedol i'r cyrff Arweinyddiaeth / Partneriaeth.
- Lledu cwmpas ardaloedd lleol i sicrhau bod Gwasanaethau Iechyd Meddwl yn ymsefydlu'n gyfan gwbl

Ffrwd Waith 2: Gweithlu a Chyflenwi Gweithredol

- Amser sydd ei angen i sefydlu ffyrdd newydd o weithio fel nad ydynt yn dieithrio staff
- Mae angen amser i gymryd gofal eilaidd ac Arweinwyr Bwrdd Iechyd ar y siwrnai drawsnewid gymunedol gyda ni
- Dim ond gydag amser ac adnoddau ychwanegol y gellir cyflawni newid sylweddol sydd ei angen
- Amser ac arian ychwanegol sy'n ofynnol i ystyried modelau gweithlu ar ôl y pandemig – galluogwyr a heriau

Ffrwd Waith 3: Trawsnewid Digidol:

Blaenoriaeth allweddol i bartneriaid wrth symud ymlaen:

- Cynhwysiant Digidol Parhaus i ddinasyddion
- Strategaeth ddigidol ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol wedi'i bersonoli
- Technolegau cwmpasu ar gyfer y dyfodol
- Cynhwysiant Digidol i staff sy'n gweithio yn y sector annibynnol gofal cartref, byw â chymorth a chartrefi gofal

Nod buddsoddi mewn strategaeth ddigidol gadarn sy'n barod am y dyfodol yw:

- Cysoni'r galw cynyddol gydag adnoddau sy'n lleihau
- Ffocws ar atal, hunan-reoli a lles
- Gwneud gwasanaethau gofal a cymorth yn fwy personol
- Cyflymu ac integreiddio graddfa gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol

Ffrwd Waith 4: Datblygu Cymunedol

- Yr angen i gydweithio'n agos â'n cymunedau i'w galluogi i greu'r amodau angenrheidiol sydd eu hangen arnynt i feithrin iechyd a lles cadarnhaol
- Graddfa'r gwersi a ddysgwyd yn unol â'r anghenion ledled y rhanbarth a Chymru yn fwy eang

- Bydd buddsoddiad byrdymor ychwanegol yn galluogi partneriaid i barhau i sefydlu ymarfer a dysgu yn ogystal â sicrhau cynaliadwyedd y dull gweithredu

Ffrwd Waith 5: Cynllunio Cynaliadwyedd – mae angen buddsoddi am flwyddyn arall i sicrhau bod y rhaglen yn parhau gyda rhesymeg glir.

Mae'r estyniad amser ac adnoddau yn helpu i ddatblygu sylfaen dystiolaeth ofynnol a hyder mewn ffyrdd newydd o weithio, er mwyn gallu gwneud penderfyniadau ar lefel Weithredol ynghylch ail-alinio cyllidebau a'r gweithlu.

Bydd buddsoddiad ychwanegol am flwyddyn yn caniatáu:

- Hyfforddiant RBA ac IPoPs – Uwch Reolwyr, Cyfarwyddwyr, Aelodau Arweiniol ac Asiantau Newid mewnol.
- Cynhadledd ranbarthol – myfyrio ar y rhaglen a chydgynhyrchu blaenoriaethau'r dyfodol gyda budd-ddeiliaid allweddol a staff gweithredol.
- Ymateb i ganfyddiadau gwaith 'Amcangyfrif Maint Cywir'
- Datblygu Strategaeth Integreiddio a Chynaliadwyedd ranbarthol a chynlluniau ail-fuddsoddi lleol i gefnogi'r newid mewn adnoddau.

I orffen, nododd AJ bod y TGC wedi lledu cwmpas y rhaglenni i sicrhau bod rhaglenni trawsnewid IM ac AD yn cael eu hintegreiddio'n llawn a'u sefydlu yn y gwaith. Bydd buddsoddiad ychwanegol am 12 mis yn cefnogi'r canlyniadau hirdymor.

Diolchodd RS i AJ am ei gyflwyniad a nododd ei fod yn cefnogi'r prosiect hwn sy'n darparu llwyfan a sylfaen i brosiectau eraill, yn enwedig IM, wrth i'r rhaglen gael ei sefydlu mewn cymunedau, bydd cwmpas i ymestyn y cylch gwaith h.y. gwaith i'r digartref a llwybr posibl i greu cyswllt â gweithio mewn partneriaeth

Cytunodd LC hefyd ac amlygodd pa mor bwysig yw cynnwys y Trydydd Sector, oherwydd natur a graddfa'r gwaith, sy'n gallu cynorthwyo i wella'r prosiect h.y. pennu'r cyflymder ar gyfer gogledd Cymru gyfan.

Cytunodd AJ, wrth i'r rhaglen ddatblygu ym mhob ardal leol bod rôl gref gan y Trydydd Sector a thynnodd sylw at lawer o'r gwaith sydd eisoes wedi'i wneud trwy'r Trydydd Sector yn Wrecsam.

Diolchodd y Cynghorydd BF am bob cyflwyniad, a nododd er bod y 6 mis diwethaf wedi bod yn heriol, bod y pandemig wedi creu newid diwylliant, gyda gwaith ar y gweill yn cael ei wneud yn gynt, mae llawer o bethau cadarnhaol wedi dod o Covid h.y. mae sgiliau digidol pobl wedi cael eu profi a'u gwella gyda chyfarfodydd ar y we. Fodd bynnag mae angen i ni gofio, yn ôl y Comisiynydd Pobl Hŷn, mae dros 45% o boblogaeth hŷn Cymru yn methu â chysylltu'n

ddigidol, sy'n tanlinellu'r ffaith bod holl raglenni trawsnewid gogledd Cymru yr un mor bwysig â'i gilydd.

Datganodd SLW yn bersonol yr hoffai weld cyfeiriad penodol at atal digartrefedd yn yr achos busnes, byddai hynny'n ymblethu'n daclus i'r eitem yn y cyfarfod BPRh diwethaf, Atal Digartrefedd, sydd hefyd yn un o flaenoriaethau allweddol LIC.

Cytunodd AJ a dywedodd y gellid gwneud hynny trwy weithio gyda'r gymuned a'r trydydd sector i amlygu materion yn gynnar er mwyn atal digartrefedd.

Mae RS hefyd yn cefnogi'r cyfle i gryfhau'r achos busnes Trawsnewid Gwasanaethau Cymunedol a chynnwys digartrefedd.

Cymeradwyodd Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru yr achos busnes ar gyfer Trawsnewid Gwasanaethau Cymunedol.

Yn dilyn trafodaeth am ddyraniad dangosol siomedig gan LIC, ac wrth gydnabod y gwaith sylweddol sydd wedi'i gwblhau hyd yma a'r gwaith sydd ar ôl i'w wneud ledled y rhanbarth, cynigodd TO anfon llythyr at LIC gyda'r achosion busnes terfynol gan BPRh Gogledd Cymru yn nodi siom aelodau'r Bwrdd ynglŷn â'r dyraniad dangosol, o gofio bod 4 rhaglen drawsnewid fawr yn gwneud cynnydd yng Ngogledd Cymru, y rhagwelir y byddant yn gwario eu holl ddyraniadau cyllid gwreiddiol a'u bod yn creu canlyniadau da i'r dinasyddion.

Rhaglen Drawsnewid Canolbwynt Ymchwil, Arloesi a Gwybodaeth (RIIH) -
Morwena Edwards

Cyflwynodd ME adroddiad gwerthuso Canolbwynt RIIC sydd hefyd yn rhan o ofynion Cymru lachach ac sy'n cael ei ariannu gan LIC.

Mae'r gwerthusiad yn adroddiad gwaelodlin cyntaf gyda'r bwriad i LIC fesur pa mor llwyddiannus yw'r canolbwynt, bydd adroddiadau dilynol yn dangos datblygiad gan hynny.

Mae'r RIIH hefyd yn cefnogi'r 4 Rhaglen Drawsnewid trwy gysylltu â'r gwaith cenedlaethol a chanolbwyntiau rhanbarthol eraill

Mae'r tîm wedi bod yn gysylltiedig â choladu rhestr o weithgareddau arloesol sy'n digwydd ar draws gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, sy'n cysylltu gyda PBC i ddysgu oddi wrth ganfyddiadau Covid. Bydd gwaith parhaus y canolbwynt yn newid ffocws er mwyn parhau i ymateb i Covid i nodi arloesi a gwersi a ddysgwyd, a bydd yn bwysig er mwyn cynllunio ar gyfer pwysau'r gaeaf. Atgoffodd ME bob cydweithiwr o fodloeth RIIH i sicrhau bod pawb yn rhannu ac yn cynnwys y Canolbwynt RIIC yn eu trafodaethau.

Roedd Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru yn cytuno y dylid cymeradwyo adroddiad gwaelodlin gwerthuso Canolbwynt RIIC.

Camau Gweithredu

- Aelodau etholedig / arweiniol i ysgrifennu at LIC.
- Anfon achosion busnes terfynol at LIC - BJE

4 Adroddiad Blynyddol Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru

Cyflwynodd BJE ddrafft terfynol Adroddiad Blynyddol BPRh Gogledd Cymru a dywedodd nad yw'r wybodaeth am aelodau'r Bwrdd sydd wedi cwblhau hyfforddiant Cymraeg wedi'u cynnwys gan mai dim ond ychydig aelodau sydd wedi ymateb.

Mae Adroddiad Blynyddol drafft 2019-2020 yn cael ei gyflwyno heddiw i'w gymeradwyo gan BPRh Gogledd Cymru a bydd yn cael ei anfon at LIC. Bydd cymeradwyaeth gan aelodau BPRh hefyd yn galluogi partneriaid statudol i roi'r adroddiad blynyddol trwy eu proses lywodraethu neu wleidyddol a bydd yr adroddiad ar gael i'r cyhoedd ar wefan <https://www.cydweithredfagogleddcymru.cymru/>

Roedd pawb yn cytuno y dylid nodi dyddiad y ffotograff a gynhwysir yn yr adroddiad er mwyn egluro bod hwn wedi cael ei dynnu ar ddechrau 2019, cyn COVID.

Cyflwynodd BJE y trosolwg 'Adrodd am effeithiau Covid' er mwyn cael cymeradwyaeth y BPRh. Mae hyn yn ofynnol hefyd gan LIC, llythyr gan Vaughan Gething a Julie Morgan dyddiedig 13.8.2020, fel y nodwyd yn Atodiad 2 Canllawiau'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Cyflwynir y trosolwg hwn i LIC ochr y ochr â'r Adroddiad Blynyddol ac mae'n cynnwys trosolwg corfforaethol a strategol cryno o Covid, ymgysylltu, gwerthuso a gwersi a ddysgwyd hyd yma.

Diolchodd TO i BJE am ysgrifennu'r adroddiad ac awgrymodd y dylid gwneud y diagram yn yr adroddiad yn fwy cyn ei anfon at LIC.

Roedd BPRh Gogledd Cymru yn cytuno y dylid cymeradwyo'r ddau adroddiad uchod ar ôl i'r newidiadau bach gael eu gwneud a byddant yn cael eu hanfon at LIC yn ôl y gofyn

Camau Gweithredu

- Cynnwys dyddiad ar waelod y ffotograff yn yr Adroddiad Blynyddol
- Gwneud y diagram yn fwy yn yr adroddiad Adrodd am effeithiau Covid.
- Anfon at LIC erbyn 30.10.2020

5 Ffrwd waith Grŵp Trawsnewid Digidol – Bethan E Jones / Alan Hughes

Cafodd y bwrdd y wybodaeth ddiweddaraf am y Rhaglen Trawsnewid Digidol gan BEJ ac AH.

Esboniodd BEJ pan gytunodd y Bwrdd sefydlu'r Grŵp Trawsnewid Digidol, ychydig yr oeddent yn wybod ar y pryd syniad mor ardderchog oedd o. O ganlyniad i Covid mae llawer iawn o waith wedi cael ei wneud i gyflymu'r ffrwd waith ddigidol, gyda chynnydd sylweddol yn cael ei wneud yn gyflym i rai elfennau a thrafodaethau ar systemau digidol ehangach ar draws y rhanbarth.

Esboniodd AH bod y Prosiect Trawsnewid Digidol yn cadw golwg ar nifer o ffrydiau gwaith cyflenwol, pob un â'i Reolwr Prosiect ei hun, sy'n gyfrifol am gynnal dogfennau priodol y prosiect a gyrru'r prosiect ymlaen, gydag is-grwpiau llai yn cael eu sefydlu i roi cefnogaeth bellach er mwyn datblygu'r prosiect lle bo hynny'n angenrheidiol.

- Technolegau'r Dyfodol
- Datrysiadau Amserlennu Timau Adnoddau Cymunedol – mae meddalwedd Malinko yn cael ei threialu yn y Gwasanaethau Nyrsio Cymunedol Ardal x 3 - Canolog, er mwyn trefnu ymweliadau yn seiliedig ar anghenion y cleient ac argaeledd staff hyfforddedig priodol o fewn y Timau Adnoddau Cymunedol. Mae pob aelod o staff wedi derbyn ffonau clyfar ac maent yn derbyn pob ymweliad gan ddefnyddio ap Malinko.
- Disgwylir darpariaeth i WCCIS Ardal y Gorllewin – TAC Caergybi a TAC Llŷn ym mis Ionawr 2021.
- Cymuned EMIS De Wrecsam – defnyddir y feddalwedd gan feddygon teulu.
- Llywodraethu Gwybodaeth – datblygu Cytundeb Rhannu Gwybodaeth rhanbarthol ar draws Timau Adnoddau Cymunedol yn seiliedig ar fodel integreiddio, ac ystod o ddogfennau safonedig.
- Datrysiadau Technegol - rhaglen waith dechnegol i gefnogi Timau Adnoddau Cymunedol ledled y Rhanbarth.
- Cymunedau Digidol – datblygu strategaeth ddigidol i greu gofal wedi'i phersonoli er mwyn gwella cyfraddau cynhwysiant digidol ledled y rhanbarth i alluogi dinasyddion i ymgysylltu'n we â gofal iechyd a chymdeithasol ar sail ddigidol.

Gwaith i'w wneud i greu cyswllt gyda Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig sydd â phrosiectau cynhwysiant digidol eisoes.

Holodd JGa a oedd Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru (WAST) wedi'u hintegreiddio'n llawn a'u cynnwys yn y gwaith datblygu Grwpiau Trawsnewid Digidol.

Dyweddod BEJ bod y gwaith presennol yn cynnwys integreiddio cymunedol gydag Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r sector gwirfoddol. Nid yw WAST yn cymryd rhan ar hyn o bryd, ond byddai'r Grŵp Trawsnewid Digidol yn croesawu eu hymgysylltiad os yw pobl yn teimlo y dylid eu cynnwys. Cytunodd BEJ gymryd y cam gweithredu hwn a thrafod ymhellach ag EH.

Dyweddod AH bod WCCIS ar lefel genedlaethol eisoes yn edrych ar ryngwynebau gyda WAST.

Awgrymodd y Cynghorydd BF y byddai'n help pe bai pob sefydliad yn defnyddio un platfform dros y we wedi'i dreialu gan y Grŵp Trawsnewid Digidol, gan fod problemau i'w gweld yn codi yn y rhan fwyaf o blatfformau.

Dyweddod BEJ bod yr awgrym hwn eisoes wedi'i drafod gan y Grŵp a Phenaethiaid TG Gogledd Cymru. Mae PBC a rhai ALLau yn symud at ddewis un platfform ar gyfer y dyfodol. Ni all PBC ddefnyddio rhai platfformau oherwydd materion diogelwch.

Diolchodd ME i BEJ a thîm y Grŵp Trawsnewid Digidol am yr adroddiad amserol. Fodd bynnag, plediodd ar y grŵp i sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei chynnwys yn glir yn y strategaeth o'r cychwyn cyntaf, a dywedodd nad oedd yn dderbyniol codi'r mater hwn ar bwyntiau penodol yn ystod y gwaith. Nid yw ME yn credu bod yr adroddiad a gyflwynwyd heddiw yn cyfeirio digon at y Gymraeg.

Cytunodd BEJ gydag ME nad yw'r strategaeth yn rhoi digon o ystyriaeth i'r ffaith bod dwyieithrwydd yn ofynnol a nododd y bydd Meilys Smith, WCCIS yn mynychu cyfarfod nesaf y Grŵp Trawsnewid Digidol i gyflwyno gwaith a wnaethpwyd ar y Gymraeg.

Ymddiheurodd BJE i'r Bwrdd nad oedd y mater cyfieithu ar y pryd wedi'i ddatrys a dywedodd bod cydweithwyr yn dal i weithio i gael cyfleusterau cyfieithu ar MS Teams. Fodd bynnag, nid yw'r drwydded gyda'r tîm rhanbarthol yn gallu darparu llinell ffôn ar gyfer cyfieithydd ar hyn o bryd, ac nes bo'r Tîm Cydweithio Rhanbarthol yn gallu cael mynediad at drwydded MST lawn bydd hyn yn dal i fod yn heriol. .

Ailadroddodd ME eto bod yn rhaid sefydlu'r platfform dwyieithog yn yr holl wasanaethau a ddarperir a dylai hynny ddigwydd o'r cychwyn cyntaf.

Nododd aelodau'r BPRh eu rhwystredigaeth wrth ddefnyddio gwahanol blatfformau ar y we a hefyd y pethau cadarnhaol sydd wedi codi o orfod defnyddio platfformau ar y we ar gyfer digwyddiadau dros y misoedd diwethaf mewn gwahanol rannau o'r rhanbarth.

Diolchodd TO i BEJ ac AH am y wybodaeth ddiweddaraf. Yn dilyn trafodaeth cytunodd aelodau BPRh Gogledd Cymru y dylid nodi'r adroddiad diweddar a pharhau i gefnogi gweithrediad y ffrydiau gwaith a ddatganwyd, a ddaw yn fwy amlwg yn y gwaith trawsnewid.

6 Grŵp Adfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol - Judith Greenhalgh/Bethan Jones Edwards (diweddariad ar lafar)

Yn dilyn gweithdy gydag aelodau o'r BPRh, nodwyd bod angen dull gweithredu rhanbarthol ar gyfer adfer mewn nifer o feysydd gwasanaeth. Darparwyd adroddiad gwaelodlin wedi'i gomisiynu gan bob ffrwd waith yn rheolaidd i'r Grŵp Adfer, gan ddarparu gwybodaeth lefel uchel am y gwaith perthnasol sy'n dangos y sefyllfa bresennol, materion allweddol ar gyfer adfer, risgiau a dulliau lliniaru a rhyngwynebau gyda grwpiau eraill ac ati.

Gan y gwelwyd cynnydd sylweddol yn y ffigyrau Covid yn ddiweddar mae'r Grŵp Cydgysylltu Strategol wedi dechrau cynnal cyfarfodydd bob pythefnos. Mae'r Grŵp Cydgysylltu Rhanbarthol wedi sefyll i lawr. Bydd gwaith y Grŵp Adfer yn parhau i fod yn hanfodol bwysig trwy gydol y gaeaf a bydd yr agenda yn y dyfodol yn canolbwyntio ar gynllunio ar gyfer y gaeaf ar draws Iechyd a Gofal Cymdeithasol ac allbwn gan y Celloedd Data a Gwybodaeth, a bydd yn darparu diweddariad rheolaidd i'r Grŵp Cydgysylltu Strategol.

Mae'r Cynllun Gaeaf yn ddarn pwysig o waith ac er bod y cynlluniau is-ranbarthol AISB wedi cael eu hoedi, unwaith y bydd y wybodaeth wedi cael ei chasglu bydd yn cael ei choladu i greu cynllun lefel uchel cynhwysfawr er mwyn craffu a'i defnyddio fel cyfeirnod. Mae PBC wedi gweithio gyda chydweithwyr o Iechyd Cyhoeddus Cymru ar ddata aciwt ac mae Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn casglu'r holl wybodaeth am y gymuned a'r holl wasanaethau sy'n darparu gofal a chymorth y tu allan i ysbytai. Caiff y cynllun terfynol ei rannu gyda'r BPRh unwaith y bydd wedi'i gwblhau.

Dywedodd y Cyng. BF yr ymddengys bod y drafodaeth am y cynllun gaeaf yn digwydd yn rhy hwyr yn y flwyddyn. Ymhen pythefnos bydd mis Hydref yn dirwyn i ben heb unrhyw gynlluniau gaeaf mewn lle.

Cytunodd JG gyda sylw'r Cynghorydd BF, wrth i Covid ymddangos mor sydyn ac wrth i wybodaeth fod yn ofynnol gan bartneriaid statudol sydd eisoes dan bwysau yn eu gwaith eu hunain.

Roedd MWim yn cytuno gyda gwaith newid ffocws y Grŵp Adfer, bydd ailsefydlu'r gwaith gwreiddiol yn ystod y cam cyntaf yn help i sefydlogi Gofal Cymdeithasol eto. Holodd MWim sut oedd y newid ffocws yn integreiddio gyda'r strwythur llywodraethu, a sut mae penderfyniadau cyflym yn cael eu gwneud i hysbysu'r rheng flaen.

Dyweddodd JG nad yw'r Grŵp Adfer yn gorff ffurfiol sy'n gwneud penderfyniadau, mwy o grŵp proffesiynol sy'n goruchwyllo gwaith sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd yn y rhanbarth. Fodd bynnag, nid yw'r ffocws wedi newid, dim ond wedi miniogi, i ganolbwyntio ar gynllunio'r gaeaf a'r wybodaeth thematig a chynllunio celloedd gwybodaeth/data. Mae'r Grŵp Adfer lechyd a Gofal yn cyflwyno adroddiadau rheolaidd i'r BPRh a'r BWRhGC, gan atgyfnerthu'r llywodraethu.

Diolchodd JW i JG am ei harweiniad ar y Grŵp Adfer, yn ystod cyfnod anodd iawn, mae cadw ffocws, adolygu camau byrdymor / tymor canolig a thymor hir wedi bod yn ymdrech gydgyssylltiedig enfawr, i gefnogi'r rhanbarth i oroesi trwy'r gaeaf gyda'r holl heriau cyffredinol a wynebir yn y gaeaf heb sôn am bwysau ychwanegol Covid.

7 Strategaeth Dementia

Cafodd y bwrdd ddiweddariad ar lafar gan BJE am y Strategaeth Dementia.

Cam gweithredu heb ei gyflawni: trefnu cyfarfod gyda JGa, Sandie Anderson a Michelle Richardson (Cymdeithas Alzheimer) – cafodd ei gynnal ar 13.8.2020. Ni chanfuwyd 'nifer o gamgymeriadau' yn y strategaeth yn ystod y drafodaeth, fel yr adroddwyd yng nghyfarfod y BPRh pan ddaeth y strategaeth i gael ei chymeradwyo. Yn dilyn y trafodaethau dim ond newidiadau bach a wnaethpwyd ac yr wythnos hon mae MR wedi anfon ei chytundeb i'r strategaeth ac adroddiadau ategol. .

Dyweddodd BJE y caiff y Strategaeth Dementia derfynol, sy'n dangos y newidiadau, ei chyflwyno i BPRh Gogledd Cymru i'w chymeradwyo ym mis Tachwedd. Ar ôl cael cymeradwyaeth gan BPRh Gogledd Cymru, gall y strategaeth fynd trwy brosesau llywodraethu a/neu wleidyddol y partneriaid statudol i gael cymeradwyaeth. Dylai pob aelod portffolio arweiniol GC y BPRh sicrhau bod y strategaeth ar eu rhaglenni gwaith i'r dyfodol o fis Rhagfyr ymlaen.

Cronfa Gofal Integredig Dementia

Hysbysodd BJE yr aelodau hefyd bod cais diweddar i LIC am gyllid gan y Gronfa Gofal Integredig i gefnogi swydd Rheolwr Prosiect Dementia am y 12 mis nesaf wedi bod yn llwyddiannus. Pwrpas y swydd yw gweithio gyda phartneriaid i adolygu gwaith y Strategaeth Dementia yng ngoleuni Covid a rhoi'r strategaeth ar waith. Mae'r broses recriwtio ar y gweill.

8 Unrhyw fusnes arall

Dim byd i'w adrodd

9 Dogfennau er gwybodaeth

Cafodd y dogfennau canlynol eu cynnwys er gwybodaeth:

- Deddf Coronafeirws 2020 - Adolygiad Cyflym

Cam Gweithredu: BJE/RW i anfon cais a dogfennau allan ar wahân – aelodau'r Bwrdd i ddarparu adborth neu ymateb ar wahân erbyn 27.10.2020

- Llythyr ar y cyd gan Arolygiad Gofal Iechyd Cymru ac Arolygiad Gofal Cymru at Fyrddau ac Ymddiriedolaethau Iechy